34. ACADEMI FFYDD
(Stori o'r Philippines)

Y peth cyntaf a wnâi Miriam bob bore oedd lapio darn o frethyn o amgylch ei phen a rhan isaf ei hwyneb. Nid er mwyn gwarchod ei hunan rhag tanbeidrwydd yr haul y gwnâi hyn, er bod yr haul yn aml yn tywynnu ar yr ynys. Ond i rwystro pobl rhag gweld ei cheg. Ganwyd Miriam â bwlch yn ei gwefus uchaf. Mae'n broblem ddigon cyffredin, ond nid oedd y pentrefwyr yn deall hyn. Iddynt hwy edrychai'n ddieflig, a byddent yn troi i ffwrdd mewn atgasedd pan welent y ferch.

Ac yna un dydd daeth rhieni Miriam, Bernie a Jessie, â newydd da iddi.

'Wyt ti'n cofio'r plant ysgol yna o Academi Ffydd a ddaeth i'n hynys?' gofynnodd Jessie gan gymryd y ferch fach ar ei glin.

Amneidiodd Miriam â'i phen, gan ffurfio darlun yn ei phen ohonynt: Ike, Allie, Chrissie, Stephen, Kate a'r gweddill. Daethant i'r ynys gyda'u harweinwyr, Hetty ac Alan, a buont yn astudio'r llosgfynydd ac yn ymdrochi yn y llyn folcanig. Ond yr hyn a arhosai yng nghof Miriam oedd mor gyfeillgar y buont – gan ganiatáu iddi ymuno â hwy i ganu caneuon a gweddïo o amgylch y tân.

'Ers iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn Manila maent wedi bod yn

meddwl amdanat,' aeth Jessie'n ei blaen. 'Maen nhw wedi codi arian ac wedi trefnu i gyfundrefn o'r enw 'Ymgyrch Wên' anfon meddyg i roi gwên ar dy wyneb.'

Goleuodd llygaid trist Miriam. Dyna'i breuddwyd – medru gwenu'n go iawn. Ond a fyddai hyn wir yn digwydd? Yn betrusgar, cododd ei bys i'w gwefus gan ei dynnu ar hyd y rhwyg hyll o dan ei thrwyn.

'Paid â phoeni. Fyddan nhw fawr o dro'n cael gwared o hwnna,' sicrhaodd Jessie hi.

'Byddwn yn gadael am Manila yfory.'

Yr oedd Alan a Hetty, wardeiniaid y neuaddau preswyl, yno i'w cyfarfod wrth i'r teulu ddod oddi ar y bws.

'Bydd Miriam yn treulio'r dyddiau nesaf yn paratoi am ei llawdriniaeth,' eglurodd Alan ar y ffordd i'r ysgol. 'Fe gaiff hi brofion gwaed . . . Pelydr X . . . y math yna o beth. Os bydd pob dim yn iawn bydd cam cyntaf 'Ymgyrch Wên' drosodd o fewn pythefnos.'

Pythefnos! Roedd y ferch fach wrth ei bodd. Er mai 'Gwefus fylchog ac ailadeiladu'r wyneb' oedd enw swyddogol y driniaeth, roedd 'Ymgyrch Wên' heb os nac oni bai'n swnio'n well.

Ddeuddydd yn ddiweddarach chwalwyd ei breuddwydion. Ni châi'r llawdriniaeth ei chyflawni. 'Fedr eich merch ddim cael y llawdriniaeth. Mae cyflwr ei hiechyd yn rhy wael,' meddai meddyg yr ysbyty wrth fynegi'r newydd drwg iddynt.

Wrth i Jessie a Bernie geisio cysuro'i gilydd, aeth Alan i siarad â'r plant yn y Neuaddau.

'Y broblem yw fod Miriam wedi cael dos ddrwg o dwbercwlosis,' eglurodd.

'Ond . . . ond . . . dyw hynna ddim yn gwneud synnwyr.' Roedd pawb yn siomedig aruthrol. Yr oeddent wedi teimlo'n siŵr fod Duw yn dweud wrthynt am helpu Miriam. Felly pam oedd o wedi caniatáu i hyn ddigwydd? Pam codi gobeithion y teulu ac yna eu chwalu'n deilchion?

Nid oes atebion hawdd i gwestiynau o'r fath. Fodd bynnag, er nad oedd pethau'n gwneud synnwyr, yr oedd disgyblion Academi Ffydd wedi cael eu dysgu i ymddiried yn Nuw. Felly, er gwaethaf

y dryswch a'r siom a ddaeth yn sgil cynllun oedd i bob golwg wedi methu, nid oeddent am ildio. Penderfynasant barhau i godi arian. Byddent yn sicrhau bod Miriam yn cael bwyd maethlon a'r gofal gorau hyd nes y byddai'n ddigon cryf i gael ei llawdriniaeth.

Doedd gan neb unrhyw syniad pa mor hir y cymerai hynny.

'Arglwydd, bendithia Miriam os gweli di'n dda. Gwna hi'n well. Bydd gyda hi a'i theulu.' Dyna weddïau'r plant oedd yng ngofal Hetty ac Alan wythnos ar ôl wythnos. Ochr yn ochr â hyn aethant ati i gynnal pob math o weithgareddau i godi arian i dalu am y pethau roedd ar Miriam eu hangen: bu Ike yn golchi ceir; bu Chrissie'n helpu i drefnu cyngerdd yn y Neuadd a bu Stephen yn cyfrannu'n rheolaidd o'i lwfans.

Bob rhyw ddeufis byddai Miriam, ei mam a'i thad yn dod i Manila am archwiliad. Byddent yn aros yn y neuadd gyda Hetty, Alan a'r disgyblion, gan ymuno â hwy am brydau bwyd a gwahanol weithgareddau. Bob tro y deuent, gweddïai'r plant yn daer am i Miriam fod yn ddigon iach i gael triniaeth. Ond am ddwy flynedd gron ni chafodd y weddi benodol honno ei hateb.

Fodd bynnag, roedd pethau eraill yn digwydd. I ddechrau, cyflwynodd Jessie a Bernie eu bywydau i'r Arglwydd. Yna dechreuodd y ddau fynychu'r eglwys ac astudio eu Beiblau. Yna dechreuasant gynnal dosbarthiadau astudiaeth Feiblaidd yn eu cartref. Ac yn y cyfamser, blodeuodd Miriam. Roedd pethau gymaint hapusach gartref nawr bod Mam a Dad wedi dod i ffydd, ac, fel hwy, roedd hithau'n dysgu am Iesu – y Duw a'i carai oedd yn gwneud iddi deimlo'n hardd ar y tu fewn.

Ac felly aeth y blynyddoedd heibio – ac yn ystod yr amser hwn sylwodd plant yr ysgol ar newid nid yn unig ym mywyd un ferch fach ond ei holl deulu. Erbyn i Miriam gael llwyr iachâd o'r twbercwlosis roedd ei thaid a'i nain hyd yn oed yn mynd i'r eglwys.

A dim ond wedi hynny y cyflawnwyd yr 'Ymgyrch Wên'.

'Mae'n union fel petai Duw wedi penderfynu fod angen i Miriam gael rhywbeth gwirioneddol werth gwenu amdano cyn rhoi ei gwên iddi,' meddai un o'r plant wrth iddynt oll aros a'u calonnau yn eu gyddfau'n disgwyl am weld eu ffrind fach wedi ei llawdriniaeth. Yn sydyn, roedd cynnwrf i lawr y grisiau. 'Mae hi yma!' gwaeddodd Alan.

Y tro hwn chafodd neb ei siomi.

'Wel, mi rwyt ti'n werth dy weld!' Fedrai Ike, Chrissie a'r criw prin gredu'r hyn a welent. Ai hon oedd y ferch fach denau â'r gwallt aflêr oedd wedi ymweld â hwy gynifer o weithiau? Roedd gwallt Miriam yn sgleinio. Roedd ei llygaid yn ddisglair. Ac am ei gwên – wel, roedd y wên newydd sbon a gawsai gan Dduw yn dweud y cyfan.

HYD: 6 munud

NEGES: Mae siomedigaethau ac anawsterau yn profi ein ffydd, ond dengys y Beibl beth sy'n digwydd pan fo pobl yn parhau i ymddiried yn Nuw.

DARLLEN: Ioan 11: 1–7; 28–41